

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol  
(Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru)  
(Diwygio) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) (Diwygio) 2022.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
15 Gorffennaf 2022

## **1. Disgrifiad**

Mae Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'r diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 5 Awst 2022.

## **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dymuno nodi bod y Gorchymyn hwn yn rhan o becyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig ac sy'n ceisio sicrhau bod y Cydbwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddol a llywodraethu â llywodraeth leol.

## **3. Cefndir deddfwriaethol**

Y pwerau sy'n galluogi llunio'r Gorchymyn hwn yw adran 73(1), (2)(b), (2)(d) a (2)(e), ac adran 105(2)(a), (2)(b) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae adran 73(1) o Ddeddf 2000 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi sut y mae'n rhaid i swyddogion monitro awdurdodau perthnasol ymdrin â materion a gyfeirir atynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Arferwyd y pŵer hwnnw i wneud Rheoliadau 2001 ac felly dibynnir arno, ar y cyd ag adran 105(3) o Ddeddf 2000, i wneud diwygiadau i'r Rheoliadau hynny. Ceir rhagor o fanylion yn adran 73(2)(b), (2)(d) a (2)(e) o Ddeddf 2000 am y mathau o ddarpariaeth y gellir eu gwneud o dan adran 73(1) o Ddeddf 2000; mae'r diwygiadau y mae Rheoliadau 2022 yn eu gwneud yn gysylltiedig â'r manylion hynny. Mae adran 105(2)(a) yn caniatáu i unrhyw reoliadau a wneir o dan Ddeddf 2000 gynnwys darpariaeth gysylltiedig, neu ddarpariaeth atodol os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus. Mae adran 105(2)(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o awdurdod.

Mae swyddogaethau perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Senedd yn rhinwedd Adran 105(5) o Ddeddf 2000.

## **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Cydbwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau, ac sy'n cynnwys y prif gynghorau yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu. Mewn rhai amgylchiadau cynhwysir Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig. Lle bo hyn yn wir nodir hyn yn y rheoliadau sefydlu perthnasol.

Mae Rheoliadau 2022 yn ychwanegu Cyd-bwyllgor Corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rheoliadau 2001. Mae hyn yn sicrhau bod Rheoliadau 2001 yn gymwys i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig pan fydd materion perthnasol yn cael eu cyfeirio at eu swyddogion monitro gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r diwygiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth, a chopïau o adroddiadau ac argymhellion, gael eu darparu i'r cyngor cyfansoddol neu awdurdod Parc Cenedlaethol y mae aelod neu aelod cyfetholedig o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sy'n destun ymchwiliad hefyd yn aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono.

Mae Rheoliadau 2022 yn rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol.

Y bwriad cyffredinol yw y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei drin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' ac y bydd yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau neu bwerau tebyg i raddau helaeth ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

## **5. Ymgynghori**

Mae'r ymagwedd gyffredinol at ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'r dyletswyddau a ddylai fod yn gymwys wedi'i chyd-datblygu â Llywodraeth Leol, CLILC a nifer o rwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys er enghraifft Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad ar Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 rhwng 10 Tachwedd 2021 a 22 Rhagfyr 2021 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r dull a fwriadwyd o weithredu'r Cod Ymddygiad i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a gwnaed yn glir pa orchmynion a rheoliadau penodol y byddai'n rhaid eu diwygio wedyn. Roedd yr holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwnnw yn cytuno â'r dull a amlinellwyd.

Er mwyn i'r broses o gymhwyso'r cod ymddygiad fod yn effeithiol, mae angen cymhwyso Rheoliadau 2001 hefyd i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Er hynny, fe wnaeth yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau

Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 asesu'r costau a'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried bwriad cyffredinol y polisi y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol'. Ystyriwyd felly'r costau sy'n gysylltiedig â chymhwyso Rheoliadau 2001 i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r aseiad effaith rheoleiddiol ar y rheoliadau sefydlu eu hunain.

Mae copi o'r [Aseiad Effaith Rheoleiddiol](#) i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.